

No.

## PWYLLGOR YMDDEOL YN GYNNAR / DILEU SWYDDI

Cofnodion cyfarfod o bell a gynhaliwyd ar 20 Mehefin, 2024.

Mae-r Agenda ar gael [yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar gael [yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd P. Drake (Cadeirydd); Cynghorydd H.C. Hamilton (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr J.E. Charles, G. John a N.C. Thomas..

### 157 CYHOEDDIAD -

Cyn i fusnes y Pwyllgor ddechrau, darllenodd y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb oedd yn bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio ar y rhyngwyd a bod y recordiad hwn yn cael ei archifo i'w weld yn y dyfodol" .

### 158 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan Gynghorwyr A.M. Ernest a M.J.G. Morgan.

### 159 COFNODION –

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Mai, 2024 fel cofnod cywir.

### 160 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

### 161 GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD –

PENDERFYNWYD – O dan Adran 100A (4) o'r Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, bod y wasg a'r cyhoedd yn cael eu heithrio o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes canlynol ar y sail eu bod yn cynnwys datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl pob tebyg fel y'i diffinnir yn Rhan 4 o'r Atodlen 12A (fel y'i diwygiwyd) o'r Ddeddf, y cyfeirir at baragraffau perthnasol yr Atodlen mewn cromfachau ar ôl y pennawd munud.

No.

162 CAIS AM YMDDEOLIAD HYBLYG – B (CAT) (GWYBODAETH EITHRIEDIG – PARAGRAFFAU 12, 13 A 14) –

Rhodddwyd ystyriaeth i'r cais am ymddeoliad hyblyg mewn perthynas â'r gweithiwr uchod.

Gyda golwg ar gynnwys yr adroddiad a thrafodaethau yn y cyfarfod, fe wnaed hynny wedyn

PENDERFYNWYD –

- (1) Y dylid cymeradwyo ymddeoliad hyblyg B yn unol â pholisi'r Cyngor, ar yr amod na fyddai unrhyw amgylchiadau eraill yn codi yn y cyfamser pan fyddai'r gyflogaeth yn cael ei therfynu am reswm gwahanol.
- (2) Cymeradwyo defnyddio'r pwerau dirprwyedig priodol, ar gyfer B, er mwyn galluogi lleihau oriau contract o 37 awr i 22 awr yr wythnos o'r wythnos yn dechrau 29 Gorffennaf, 2024.
- (3) Bod ymddeoliad B yn cael ei gymeradwyo o gyflogaeth gyda'r Cyngor sy'n digwydd ar neu cyn 28 Gorffennaf, 2026.

Rhesymau dros benderfyniadau

- (1) Penderfynu ar gais ymddeoliad hyblyg B o fewn y rheoliadau a chaniatáu ar gyfer unrhyw bosibiliadau nad ydynt yn hysbys ar hyn o bryd.
- (2-3) Cyflawni'r newid angenrheidiol i oriau gwaith y cyflogai, i gynorthwyo parhad gwasanaeth a darparu cymorth priodol i baratodau hyfforddeion.

163 PENDERFYNU DISWYDDIAD – H (CAT) (GWYBODAETH EITHRIEDIG – PARAGRAFFAU 12, 13 A 14) –

Rhodddwyd ystyriaeth i benderfynu ar gais am ddiswyddiad mewn perthynas â'r gweithiwr uchod.

Gyda golwg ar gynnwys yr adroddiad a thrafodaethau yn y cyfarfod, fe wnaed hynny wedyn

PENDERFYNWYD –

- (1) Bod y taliad dileu swydd statudol yn cael ei gymeradwyo ar neu cyn 21 Mehefin, 2024, ar sail Cynllun E o Gynllun Ymddeol Cynnar / Cynllun Diswyddo'r Cyngor, yn amodol ar Benderfyniad (2) isod.
- (2) Pe byddai cyflogaeth arall yn cael ei chanfod ar gyfer H, bod y cyfnod rhybudd o 24 Mai, 2024 yn cael ei ymestyn i gwmpasu unrhyw gyfnod prawf a bod

No.

Penderfyniad (1) uchod yn cael ei ddirymu (ynghyd ag unrhyw daliad dileu swydd) os profir bod y cyfnod prawf yn berthnasol. Ilwyddiannus.

Rhesymau dros benderfyniadau

(1) Cefnogi'r Cyngor i gyflawni arbedion effeithlonrwydd ariannol oherwydd yr heriau cyllidebol a wynebir gan y tri Awdurdod Lleol y mae'r Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir yn eu cwmpasu.

(2) Parhau i gydymffurfio â Pholisïau Adnoddau Dynol y Cyngor a gwneud taliadau priodol yn unig.